Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Wraig wrth y Ffynnon

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Lazarus

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 47 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Roedd Iesu a'i ddisgyblion yn teithio trwy ardal Samaria. Daethant i bentref o'r enw Sychar.



1

Roedd ffynnon yno, a byddai pobl Sychar yn tynnu dŵr o'r ffynnon i'w yfed. Jacob, tad yr Israeliaid, oedd wedi cloddio'r ffynnon amser maith yn ôl.



2

Mae'n siŵr ei bod hi'n heulog ac yn boeth yn gynnar yn y prynhawn. Eisteddodd Iesu wrth y ffynnon ac aeth ei ddisgyblion i Sychar i brynu bwyd.



3

Roedd Iesu ar ei ben ei hun – ond cyn hir daeth gwraig oedd yn byw yn Sychar i dynnu dŵr o'r ffynnon.

"Rho ddiod i mi", gofynnodd Iesu.

4



Cafodd y wraig sioc. "Iddew wyt ti," meddai'r wraig, "Sut alli di ofyn i mi am ddiod? Dw i'n wraig o Samaria." Doedd Iddewon ddim yn cymysgu o gwbl gyda phobl Samaria bryd hynny!

5

Mae'n debyg iddi gael mwy o sioc pan ddywedodd Iesu, "Taset ti ond yn gwybod pwy ydw i, ti fyddai'n gofyn wedyn i mi roi dŵr bywiol i ti."



6



Dywedodd y wraig wrth Iesu, "Does gen ti ddim bwced i godi dŵr ac mae'r pydew yn ddwfn. Wyt ti'n meddwl dy fod di'n fwy na'n tad ni, Jacob? Jacob roddodd y pydew i ni."

7



"Bydd syched eto ar bawb sy'n yfed y dŵr yma, ond fydd dim syched byth ar y rhai sy'n yfed y dŵr dw i'n ei roi. Yn wir, bydd y dŵr dw i'n ei roi yn troi'n ffynnon o ddŵr y tu mewn iddyn nhw, fel ffrwd yn llifo i fywyd tragwyddol," meddai Iesu wrth y wraig.

8



Meddai'r wraig wrtho, "Syr, rho beth o'r dŵr hwnnw i mi!"

9

Dwedodd Iesu wrthi, "Dos i nôl dy ŵr." "Does gen i ddim gŵr," meddai'r wraig. "Does gen ti ddim gŵr. Y gwir ydy dy fod wedi cael pump o wŷr, a dwyt ti ddim yn briod â'r dyn sy'n byw gyda ti nawr," dywedodd Iesu.



10

Sylweddolodd y wraig fod Iesu yn broffwyd. Roedd hi am ddechrau dadl– oedd pobl i fod i addoli yn Jerwsalem neu ar fynydd fel y Samariaid. Dywedodd Iesu bod addolwyr go iawn yn addoli Duw mewn ysbryd ac mewn gwirionedd.



11

Meddai'r wraig, "Dw i'n gwybod fod y Meseia yn dod. Pan ddaw, bydd yn esbonio popeth i ni." "Fi ydy e," meddai Iesu wrthi, "yr un sy'n siarad â ti." Dyna pryd daeth ei ddisgyblion yn ôl. Dyma'r wraig yn gadael ei photyn dŵr, drud a mynd yn ôl i'r pentref.

12



Dwedodd wrth bobl Sychar, "Dewch i weld dyn oedd yn gwybod popeth amdana i. Allai e fod y Meseia tybed?" Felly dyma'r bobl yn mynd allan o'r pentref i gyfarfod Iesu.

13

Tra bod hyn yn digwydd, roedd disgyblion Iesu wedi bod yn ceisio ei gael i fwyta rhywbeth.

14

Ond dywedodd Iesu: "Gwneud beth mae Duw'n ddweud ydy fy mwyd i," meddai Iesu, "a gorffen y gwaith". Gwaith Iesu oedd arwain pobl at Dduw.

15



Roedd nifer o Samariaid y pentref wedi credu yn Iesu achos beth ddywedodd y wraig. Dyma nhw'n gofyn i Iesu aros gyda nhw; ac arhosodd yno am ddau ddiwrnod.

16



Daeth llawer iawn mwy o bobl i gredu ar ôl clywed Iesu'n siarad.

17



A dyma nhw'n dweud "… Dŷn ni'n credu bellach am ein bod ni wedi ei glywed ein hunain. Yn reit siŵr, hwn ydy'r Meseia, Achubwr y byd."

18

Y Wraig wrth y Ffynnon

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ioan 4

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!